

## SESIWN 4: YSGRIFENNU CÂN BROTEST

Ystod oedran: 7-11 oed

<p><b>Amlinelliad</b></p> <p>Bydd y dysgwyr yn dechrau trwy fwrw golwg eto ar rai o'r agweddau ar anghydraddoldeb y buont yn eu harchwilio yn Sesiynau 1, 2 a 3. Gan adeiladau ar y cynlluniau a luniwyd ganddynt yn Sesiwn 3, bydd y dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau i ysgrifennu penillion ar gyfer cân brotest. Yna, byddant yn canu eu pennill neu'r gân gyfan (gan gynnwys y penillion a ysgrifennwyd gan grwpiau eraill), ac yn cynllunio sut y gallai hynny ddod yn berfformiad cyhoeddus.</p>	
<p><b>Amcanion dysgu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Crynhoi'r hyn a ddysgwyd am anghydraddoldeb hyd yn hyn.</li> <li>• Defnyddio gwybodaeth, sgiliau cerddorol ac ysgrifennu creadigol i ysgrifennu eu geiriau eu hunain.</li> <li>• Datblygu sgiliau gwaith tîm i gynllunio a rhoi perfformiad.</li> <li>• Defnyddio sgiliau meddwl yn feirniadol i asesu materion.</li> </ul>	<p><b>Deilliannau dysgu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu geiriau ar gyfer cân brotest ynghylch anghydraddoldeb.</li> <li>• Bydd y dysgwyr yn perfformio eu cân eu hunain.</li> <li>• Bydd y dysgwyr yn meddwl sut i berfformio'r gân o flaen pobl eraill.</li> </ul>
<p><b>Cwestiynau allweddol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Beth yr ydym ni wedi'i ddysgu am anghydraddoldeb hyd yn hyn?</li> <li>• Sut y gallaf ddefnyddio cân i ddeud wrth bobl eraill am hyn?</li> <li>• Beth yw'r geiriau gorau i'w defnyddio i gyd-fynd â'r gerddoriaeth ac i fynegi'r hyn yr wyf am ei ddweud?</li> </ul>	<p><b>Adnoddau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Traciau cefndir ar gyfer <i>This Little Light of Mine</i> ac <i>I Wish I Knew How it Feels to be Free</i>.</li> </ul>

## Amlinelliad o'r sesiwn

### Tasg gychwynnol (10 munud)

Cwis crynhoi: rhes 'cywir neu anghywir'

- Gofynnwch i'r dysgwyr sefyll mewn rhes yng nghefn yr ystafell ddosbarth. Esboniwch y byddwch yn darllen datganiadau iddynt a bod angen iddynt godi eu dwylo os credant fod datganiad yn gywir a pheidio â chodi eu dwylo os credant fod datganiad yn anghywir.
  - Dylai'r dysgwyr sy'n rhoi atebion cywir gymryd un cam ymlaen. Yr enillydd fydd y cyntaf i gyrraedd blaen yr ystafell ddosbarth.
  - Darllenwch y datganiadau hyn, fesul un, i'r dysgwyr gan ddilyn y weithdrefn uchod. Sylwch, os byddwch yn gweithio gyda phlant 7-9 oed fod angen atal y cwis ar ôl datganiad 4.
1. Mae cael ffôn symudol yn hawl ddynol.
    - Anghywir. Mae ffôn symudol yn enghraifft o rywbeth y mae arnom ei eisiau yn hytrach na'i angen.
  2. Roedd y gân *This Little Light of Mine* yn cael ei galw'n Gân Rhyddid.
    - Cywir. Roedd Caneuon Rhyddid yn mynegi teimladau a bwriadau pobl yn y Mudiad Hawliau Sifil ac yn cael eu canu mewn gorymdeithiau protest.
  3. Roedd y Mudiad Hawliau Sifil am sicrhau'r hawl i gydraddoldeb i bawb, beth bynnag eu hil.
    - Cywir. Roedd protestwyr Hawliau Sifil yn galw am yr hawl i Americanwyr du fwynhau'r un cyfleoedd ag Americanwyr gwyn a chael eu trin yn gydradd.
  4. Mae caneuon protest yn ffordd o ddangos eich cefnogaeth i'r llywodraeth.
    - Anghywir. Mae caneuon protest yn ffordd o godi llais yn erbyn y llywodraeth a galw am newid.
  5. Yn Chile, bu Victor Jara yn canu caneuon protest dros hawliau tir ar gyfer pobl dlawd.
    - Cywir. Roedd rhai o ganeuon Victor Jara yn tynnu sylw pobl at y ffaith fod pobl dlawd yn aml yn cael eu gorfodi i adael y tir yr oeddent yn byw arno ac yn ei ffermio.
  6. Mae anghydraddoldeb hiliol yn broblem o hyd i lawer o gymunedau brodorol yn America Ladin
    - Cywir. Mae pobl frodorol yn America Ladin yn aml yn dlotach na hiliau eraill.
  7. Nid yw Bolifia erioed wedi cael arlywydd sy'n dod o gymuned frodorol.
    - Anghywir. Daeth Evo Morales yn arlywydd yn 2006, yr arlywydd cyntaf i ddod o gymuned frodorol.
  8. Mae perchnogaeth tir wedi'i rhannu'n deg a chyfartal ar draws y byd.
    - Anghywir. Mae llawer o gwmnïau mawr yn berchen ar ddarnau helaeth o dir ac mae pobl yn aml yn cael eu troi allan o'u cartrefi gan nad oes hawl gyfreithiol ganddynt dros y tir y maent yn byw arno.

## Gwahaniaethu

*Gwneud pethau'n anos: Gallech ddefnyddio'r cyfle hwn i fyfyrio fel dosbarth ar yr anghydraddoldebau y mae'r dysgwyr yn teimlo sydd yn eu hysgol eu hunain, a thrafod unrhyw faterion y teimlant fod angen cynyddu ymwybyddiaeth ohonynt o hyd. Er enghraifft, gallai'r dysgwyr archwilio polisi'r ysgol ynghylch cydraddoldeb hiliol a phenderfynu a yw'r polisi hwnnw'n gweithio neu beidio.*

## Gweithgaredd 4.1 (30 munud)

### Ysgrifennu cân brotest

- Atgoffwch y dosbarth fod cerddorion wedi defnyddio caneuon fel math o brotest i roi gwybod i bobl am anghyfiawnder ac y gallai hon fod yn ffordd dda o ledaenu'r neges am y materion y buont yn dysgu amdanynt.
- Mae'n gyfle hefyd i'r dysgwyr fyfyrio ar eu perthnasoedd eu hunain– yn enwedig sut y gallent fod yn trin pobl o wahanol gefndiroedd ethnig neu gymdeithasol.
- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a gofynnwch iddynt ysgrifennu pennill ar gyfer cân yn seiliedig ar y themâu a amlygwyd ganddynt ar ddiwedd Sesiwn 3.
- Defnyddiwch alaw *This Little Light of Mine*, a gafodd ei dysgu yn Sesiwn 1, i gyd-fynd â'u geiriau. Mae hon yn enghraifft syml bosib:

Bu pobl America  
Yn protestio ar y stryd  
Bu pobl America  
Yn protestio ar y stryd  
Bu pobl America  
Yn protestio ar y stryd  
I fynnu hawliau sifil i bob hil

Neu, i blant 9-11 oed sydd wedi cwblhau Sesiwn 3:

Mae pobl Bolifia  
Am aros ar eu tir  
Mae pobl Bolifia  
Am aros ar eu tir  
Mae pobl Bolifia  
Am aros ar eu tir  
A sefyll dros eu hawliau i gyd

- Galwch y dosbarth ynghyd a gofynnwch i bob grŵp rannu'i bennill. Gweithiwch fel dosbarth i osod y gwahanol benillion yn eu trefn, i greu cân dosbarth cyfan. Ysgrifennwch y penillion ar y bwrdd i bawb gael eu gweld.

*Gwneud pethau'n anos: Defnyddiwch alaw I Wish I Knew How It Feels To Be Free.*

## Gweithgaredd 4.2 (15 munud)

### Perfformio'r gân

- Defnyddiwch y traciau cefndir a gofynnwch i'r dosbarth ganu geiriau newydd y gân. Gallai pawb ganu gyda'i gilydd neu gallai grwpiau llai ganu eu penillion eu hunain.

## Sesiwn lawn (5 munud)

### Cynllunio perfformiad cyhoeddus

- Fel dosbarth, trafodwch ymhle y gallai'r dysgwyr berfformio eu cân i ledaenu eu negeseuon am anghydraddoldeb. Sut y gallent sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn ei chlywed? A fyddai modd iddynt ganu eu cân mewn gwasanaeth neu drefnu digwyddiad bach efallai?

## Syniadau pellach

- Defnyddiwch y ffeil Canllaw Trefnu Gigiau Oxjam i Ysgolion i chwilio am syniadau ynghylch cynnal cyngerdd er mwyn perfformio eich cân brotest a chodi arian hollbwysig ar gyfer Oxfam.

## Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

